# MONOLOG MO

Dydy colli rhywun neu rywbeth byth yn hawdd. Weithiau mae hyd yn oed colli esgid, neu hosan, neu degan yn gallu bod yn rhwystredig ac yn boendod ond mae colli person neu anifail anwes yn anoddach fyth! O'n i'n bendant yn cydymdeimlo gyda Mo, druan a hi! Roedd hi'n amlwg yn gweld eisiau Smwt y gath yn fawr iawn.

Weithiau mae gwneud rhywbeth mor syml a thynnu llun neu siarad gyda rhywun rydym ni wedi colli, fel roedd Mo yn ei wneud, yn gallu bod yn lot o help. Mae'n ffordd o'n helpu ni i ddelio gyda'r golled.

Beth oedd Mo yn ei wneud yn y fideo? Roedd hi'n meddwl am y pethau da, yr atgofion melys a'r pethau oedd yn ei gwneud hi'n hapus wrth gofio nôl.

Mae'n bwysig cofio bod pob anifail, gan gynnwys bodau dynol yn cael eu geni...mae nhw'n heneiddio a bydd rhai yn mynd ymlaen i gael plant....ac yn y diwedd, yn anffodus, mae pob anifail yn marw. Enw hyn ydi'r cylch bywyd. Er wrth gwrs dydi hi ddim yn hawdd meddwl am golli anifail fel rhan naturiol o'r cylch bywyd.

Beth alli di wneud pan rwyt ti'n teimlo hiraeth am anifail, rhywun neu rywbeth rwyt ti wedi ei golli? Wel, gwneud yn union yr un peth â Mo, cofio am y pethau **DA!**

Cofia bod meddwl am y pethau da yn gallu bod yn anodd 'fyd, ond mae'n rhaid i ti deimlo'n **BAROD** i hel atgofion am berson, paid â rhoi pwysau arnat ti dy hun i wneud hyn yn rhy gyflym.

## TASGAU

**Jar Atgofion**
Os wyt ti'n barod, beth am feddwl am dy hoff atgofion o rywun/rhywbeth rwyt ti wedi ei golli, fel Mo? Ysgrifenna rhai o'r atgofion yma ar ddarnau o bapur bach unigol a chreu jar o atgofion hyfryd. Yna pan rwyt ti'n cael diwrnod diflas, fe alli di dynnu un allan a'i ddarllen ac ail-fyw'r atgof hyfryd yna.

Mae hwn yn gallu gweithio gydag unrhyw beth, hyd yn oed os nad wyt ti'n hiraethu am rywun neu rywbeth. Beth am feddwl am dy hoff atgofion o'r flwyddyn hyd yn hyn? Neu os nad wyt ti'n gallu meddwl am atgofion hyfryd eleni, beth am llynedd, neu beth am feddwl am holl atgofion da dy fywyd? Tynna un atgof allan ar ddiwrnod gwael i dy atgoffa mai dim ond diwrnod gwael yw hwn, nid bywyd gwael.


**Cylchred Bywyd**
Roedd Mo yn cwestiynu beth sy'n dod ar ôl marwolaeth. Mae'n bwysig dysgu'r wyddoniaeth tu ôl i gylchred bywyd anifeiliaid hefyd.

Fel ro'n i'n dweud, mae cylchred bywyd yn rhan o fywyd pob anifail gan ein cynnwys ni, pobl. Mae anifeiliaid yn fach ar ddechrau eu bywyd. Dros amser mae nhw'n tyfu'n fwy ac mae eu cyrff yn newid. Pan fyddant wedi tyfu i fyny, efallai y byddant yn atgenhedlu a chael anifeiliaid ifanc eu hunain. Bydd y plant hyn yn heneiddio ac efallai y bydd ganddynt **blant** hefyd yn y pen draw, ac felly mae cylchred bywyd yn dal i fynd!

**Cwis Cylchred Bywyd**

1.) Mae cylchred bywyd dynol yn cynnwys epil o'r enw ....
- A. Bylbiau
- B. Lindys
- C. Babis

2.) Beth fyddai'n digwydd os na fyddai pethau'n atgenhedlu?
- A. Byddai pobl yn goroesi
- B. Byddai bywyd yn gorffen
- C. Byddai coed yn goroesi



3.) Beth mae'r llun yn ei ddangos?
- A. Cylchred bywyd
- B. Peillio
- C. Mamal

4.) Gwir neu gau: Mae pob anifail yn dilyn cylchred bywyd.
- Gwir
- Gau

5.) Sut mae cylchred bywyd yn gorffen?
- A. Mae anifail yn marw
- B. Mae anifail yn cael ei eni
- C. Mae'r anifail yn cael babi

**Gwaith Ymchwil**
Ymchwilia i gylch bywyd y Broga, Pili Pala neu'r Fuwch Goch Gota a chreu testun esboniadol yn disgrifio sut a pham mae'r cylchdro'n digwydd.

Tynna lun diagram o'r cylchred bywyd fel rhan o'r testun ffeithiol.